Edrych tua'r Gorwel

Alun Jones, Prif Weithredwr Menter a Busnes

Barchus Weinidog ac annwyl gyfeillion,

Prynhawn ddoe ddaeth y ddogfen ymgynghorol i law, felly rhyw ymateb ychydig yn fympwyol sydd gen i siŵr o fod, rhyw *gut reaction* fwy na dim. Yn gyffredinol, mae'n fy nharo bod yna lawer o bethau da iawn yn y strategaeth yma, ynghyd â rhai bylchau neu wendidau. Mi af i ar ôl rhai o'r rheini yn y man. Dogfen ymgynghorol ydy hi wedi'r cyfan ac rydyn ni angen pwyntiau trafod.

Mae yna lawer o sôn wedi bod am yr iaith Gymraeg yn y wasg dros y misoedd diwethaf. Y Mesur Iaith i ddechrau, a gyda 70 o welliannau yn cael eu cyflwyno ar y darlleniad olaf - a rhai gwelliannau allweddol ar yr unfed awr ar ddeg - dwi ddim yn credu fod hynny'n cynnig hyder i unrhyw sector, ac yn arbennig y sector breifat, fod y Mesur yn un sydd â llawer o gytundeb yn ei gylch. At hynny, mae yna ryw awgrym fod yna rhyw elfen o '*desperation*' ynghlwm ag o. Dyna'r synau rydw i wedi sylwi arnyn nhw ymhlith busnesau beth bynnag.

A ddoe wedyn, â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Iaith yma yn cael ei lansio, mae busnesau yn holi: Beth yw hwn eto? Sut mae hwn yn perthyn i'r Mesur Iaith 'te?

Mae'r Mesur Iaith yn ddogfen hir iawn a chymhleth, fel byddech chi'n disgwyl, a go brin fod yna lawer o fusnesau sector breifat yn mynd i'w darllen hi. Mae'r Strategaeth ddrafft yma wedyn, er yn cynnwys llai o bwyntiau gweithredu nac Iaith Pawb (a dwi'n croesawu hynny) yn dal i gynnwys gormod o bwyntiau gweithredu yn fy marn i. Neu o leiaf mae angen eu blaenoriaethu nhw.

Beth mae busnesau angen gwybod ydy: Beth mae hyn yn golygu i'm busnes i? Beth ydw i'n gorfod gwneud yn wahanol? Beth ydw i'n gorfod gwneud i gydymffurfio?

Mae hyn yn codi pwyntiau pwysig ynghylch:

- Sut mae'r datblygiadau pwysig yma ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn cael eu portreadu, eu cyfathrebu a'u cyflwyno i'r sector breifat?
- Sut mae cyflwyno'r newidiadau mewn ffordd gadarnhaol heb elyniaethu?

Fe fydd trosglwyddo'r datblygiadau polisi lawr i lefel gweithredu yn allweddol o safbwynt ennyn cefnogaeth y sector breifat.

O edrych yn fanylach ar y ddogfen ei hun o safbwynt y sector breifat, os gaf i ddefnyddio ymadrodd amaethyddol, rydw i'n teimlo fod hi ychydig bach 'wysg ei thin'. Hynny ydy, mae'r bennod olaf un yn son am 'Hyrwyddo Gwerth yr Iaith Gymraeg'. Fy nheimlad i yw mai hynny ddylai ddod gyntaf. Mae angen sefydlu negeseuon cryno sy'n sôn am werth economaidd yr iaith. Mae Adran 4 yn sôn am werth yr iaith o

safbwynt ei throsglwyddo ac o ran cael swyddi - ond dim sôn am werth economaidd yr iaith. Er fy mod i wedi crybwyll fod yna ormod o bwyntiau gweithredu yn y ddogfen, rydw i'n teimlo fod angen cwpwl mwy yn yr adran yma. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ymchwil sy'n honni bod 73% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn fwy tebygol o brynu eto oddi wrth fusnes neu argymell y busnes i eraill os oedd y busnes yn defnyddio'r Gymraeg. Byddai unrhyw fusnes gwerth ei halen yn codi clustiau o glywed ystadegau fel yna.

Yn y rhagair mae'r Gweinidog yn cyfeirio at hunaniaeth ddiwylliannol , at gymeriad Cymru ac at amrywiaeth gyfoethog. Wel, yng nghanol globaleiddio cynyddol a *bland* dyma i chi fachyn marchnata ardderchog.

Fe ddes i ar draws erthygl ddoe a ymddangosodd yn y Western Mail yn 2001 a oedd yn sôn am sut roedd yr iaith Gymraeg wedi tyfu mewn pwysigrwydd ac roedd yna ddyfyniad wrth sôn am y gorffennol:

> *"the main reason for the decline of the Welsh Language was because people regarded it as useless. It had no <u>value</u>. It had cultural enthusiasts."*

Gadewch i ni osod sylfaen gadarn i werth yr iaith ym mhob ystyr - a gadael popeth arall i ddilyn.

Mae'r argymhelliad o greu prosiect Trefi a Dinasoedd Dwyieithog yn un diddorol. Rydym yn gwybod ers blynyddoedd fod hufen ein cymunedau Cymraeg gwledig ni yn heidio am y dinasoedd - Caerdydd yn arbennig - ac (i gadw ar y thema amaethyddol) onid yw hyn yn gyfle i droi'r hufen yn fenyn, ychwanegu gwerth i'r cynnyrch craidd, adeiladu ar y dalent a'r brwdfrydedd ac yna dosbarthu peth o'r menyn yn ôl i'r ardaloedd gwledig efallai?

Dau nodyn o rybudd:

- Fod hynny ddim ar draul ceisio cadw a denu pobl ifanc yn ôl i'w hardaloedd cynhenid. Does yna ddim son am hynny, gobeithio ein bod ni heb roi'r gorau ar hynny?
- Bod rhaid i'r strategaeth berthyn i Gymru gyfan. Fel cwmni sydd â'i bencadlys yn y Canolbarth ac sy'n gweithio llawer yn y gogledd, rydym yn gyfarwydd â'r cwynion. Rhaid gochel rhag hynny.

Ond mae'r label 'Dinas Ddwyieithog' yn cynnig bachyn marchnata defnyddiol iawn i fusnesau blaengar fydd yn gallu manteisio ar hynny. Rydw i'n credu y gellid cryfhau'r elfennau entrepreneuriaeth a mentergarwch sydd ynghlwm â'r syniad ac yn ddogfen drwyddi draw.

Mae'r pwyslais ar ddefnydd iaith yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr. A lle mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n treulio y rhan fwyaf o'n horiau? Yn y gweithle, wrth reswm. Mae gan y sector breifat a'r trydydd sector gyfraniad pwysig yn hyn o beth. Mae'r trydydd sector yn gyflogwr pwysig iawn yng Nghymru a dwi ddim wedi'n hargyhoeddi fod y strategaeth yn sylweddoli nac yn gwerthfawrogi potensial y trydydd sector. Mae'n

cynnwys llawer o fusnesau llwyddiannus ond taw busnesau sydd ag amcanion cymdeithasol ydyn nhw yn hytrach nag amcanion ariannol yn unig. Yn America mae'r sector gymdeithasol ar gynnydd yn aruthrol. Mae'r Americanwyr yn gweld y trydydd sector fel model sy'n ateb problemau economaidd. Efallai y dylen ninnau ystyried hynny hefyd.

Un ddolen amlwg sydd ar goll, yn ôl yr hyn allaf i weld, ydy'r cyswllt rhwng y byd addysg a byd gwaith. Mae yna duedd i gymryd yn ganiataol fod bobl ifanc a'r gweithlu yn ehangach yn gwybod ble mae'r swyddi lle gallwch chi ddefnyddio'r Gymraeg. Ond dydyn nhw ddim ar y funud. Mae cymaint o bobl yn colli'r cyfle i ymarfer eu Cymraeg ar ôl gadael addysg ffurfiol. Efallai y byddai'n syniad creu cronfa ddata o fusnesau lle mae gweinyddiaeth y cwmni neu'r sefydliad yn Gymraeg neu ddwyieithog.

Roeddwn yn falch o weld mai gwirfoddol yw'r disgwyliad o safbwynt y sector breifat, gan fod yna lawer o ewyllys da yn bodoli tuag at yr iaith Gymraeg. Da gweld y Strategaeth yn cyfeirio at hynny. Mae yna gymaint o newid sydd angen ei weld o fewn y sector gyhoeddus i ddechrau. Mae goblygiadau'r Mesur Iaith yn anferthol ac mae'n mynd i gymryd amser i'w gweithredu. Wrth i gwsmeriaid arfer derbyn gwasanaethau dwyieithog gan y sector gyhoeddus mi fyddan nhw'n gynyddol ddisgwyl hynny gan y sector breifat maes o law.

Yn y cyfamser, fodd bynnag, dwi'n credu y dylen ni dynnu mwy o sylw at ar arfer gorau sydd i'w weld o fewn y sector breifat. Busnesau bach iawn yw canran uchel o fusnesau Cymru - nid y cewri fel Tesco a Microsoft - ac mae'n hanfodol fod nhw'n gweld perthnasedd y Mesur a'r Strategaeth. Mae angen iddyn nhw fedru uniaethu eu hunain â'r enghreifftiau.

Rhaid gwylio hefyd rhag colli momentwm sy'n cael ei gynnal gan Gynlluniau Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod o drosglwyddo dyletswyddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r sefydliad newydd. Mae yna berygl i bethau gael ei amddifadu o bwrpas ac egni. Rhaid dal ati i weithio tuag at amcanion y Cynlluniau Iaith cyfredol. Mae hyn hefyd yn berthnasol, maes o law, o safbwynt y cyfnod trosglwyddo o'r Cynlluniau Iaith tuag at y safonau sydd yn y mesur

Fel soniais i, mae yna lawer o ewyllys da. Dyma fymryn o dystiolaeth storïol i chi. Roeddwn yn siarad gyda chwmni o dros y ffin ddydd Gwener ddiwethaf; cwmni sydd wedi ennill cytundeb i ddarparu gwasanaethau ar draws Cymru. Does neb yn y cwmni yn siarad Cymraeg ond maen nhw eisiau gwneud y peth iawn a theimlo eu bod nhw eisiau darparu gwasanaeth dwyieithog 'deche'. Agwedd iach iawn ond heb gael cyfarwyddyd ynghylch beth yw'r isafswm dylen nhw anelu ato a neb yn monitro eu gweithgareddau nhw. Dwi'n deall gall hynny ddod o fewn rôl y Comisiynydd Iaith ac mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

Ar y funud mae cymaint yn dibynnu ar agwedd unigolion, ac mae hynny mor wir am bob sector: sector gyhoeddus, sector breifat a'r trydydd sector. Mae angen mwy o entrepreneuriaid Cymraeg sydd â'r agwedd gywir fel cyflogwyr ym mhob un o'r sectorau hyn.

Yn olaf, mae'n rhaid i'r Strategaeth, yn anad dim, argyhoeddi busnesau a chyflogwyr o bob sector fod yr iaith yn rhywbeth sy'n rhaid buddsoddi ynddi o safbwynt staff ac o safbwynt marchnata.

Saunders Lewis ddywedodd ddeugain mlynedd yn ôl fod yn rhaid i'r iaith fod yn iaith y sefydliad er mwyn iddi lwyddo. Mae'r Mesur Iaith yn mynd â ni gam yn nes at hynny ac mae'r Strategaeth Iaith yma yn amlinellu posibiliadau llawer ehangach na hynny o safbwynt sicrhau iaith fyw ac iaith byw.

Diolch yn fawr.

* * *